

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 27 Medi, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman a N.J. Wood; and M. Evans (Aelod Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau)

### EITEM AGENDA 1 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr P. Drake a J. P:rotheroe.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2022 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### EITEM AGENDA 4. CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23 (CYF) -

PENDERFYNWYD - CYMERADWYO Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg 2022/23 a'r dull arfaethedig o ymgysylltu ag Aelodau yn ystod y flwyddyn i lunio a mireinio'r Calendr Perfformiad Blynyddol a phrosesau, cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig i alluogi'r Cyngor i fodloni'r gofynion perfformiad newydd.

### Y rheswm dros y penderfyniad

Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. HUNANASESIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2021/22 (CYF) –

PENDERFYNWYD -

(1) CYMERADWYO adroddiad Drafft Hunanasesiad Blynyddol Bro Morgannwg 2021/22 (Atodiad A) yn sail i'r ymgynghoriad fel y disgrifir yn yr adroddiad.

(2) CYFEIRIO safbwynt y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet i'w ystyried, sef:

- Mwy o naratif yn ymwneud â'r camau gweithredu wrth gefnogi anghenion sylfaenol grwpiau sy'n agored i niwed o ganlyniad i'r argyfwng costau byw;
- Mwy o gyfeirio at y cynigion ar gyfer ailddatblygu hen safle Gorsaf Bŵer Aberddawan.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hysbysu'r Cabinet am safbwynt y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD CH1: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2022/23 - CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) -

PENDERFYNWYD - BOD yr Adroddiad Diweddarau yn cael ei ohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Y rheswm dros y penderfyniad

Yn dilyn materion technegol a wnaeth atal y swyddog perthnasol rhag cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION CORFFORAETHOL 2021/22 (CAC) -

PENDERFYNWYD -

(1) NODI cynnwys yr adroddiad ac Atodiad A (Adroddiad Cwynion a Chanmoliaethau Blynyddol).

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn diweddariad blynyddol mewn perthynas â Chwynion a Canmoliaethau Corfforaethol.

(3) NODI'r Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Atodiad B) yng nghyd-destun yr Adroddiad Cwynion a Chanmoliaethau Blynyddol.

(4) CYFEIRIO adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet iddynt gael eu hystyried.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Caniatáu i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

EITEM AGENDA 8. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC): DIGARTREFEDD WEDI'I ADOLYGU, DRWS AGORED I NEWID CADARNHAOL: GWEITHREDU AR ARGYMHELLION A AWGRYMIR I AWDURDODAU HEB YMCHWILIO (CAC) -

PENDERFYNWYD -

(1) BOD argymhellion y Digartrefedd wedi'u Hadolygu: Mae Adroddiad Drws Agored i Newid Positif, llythyr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r Cyngor (a atodir yn Atodiad A) a diweddariad cynnydd y Cyngor (a atodir yn Atodiad B) yn cael ei nodi a'i gyfeirio at y Cabinet i'w hystyried ac i gymeradwyo cynnydd.

(2) Yn dilyn ystyriaeth y Cabinet i'r adroddiad, bod diweddariad cynnydd y Cyngor (a atodir yn Atodiad B) yn cael ei anfon ymlaen at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y gofynnwyd.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyda diweddariad cynnydd yn erbyn argymhellion yr adroddiad.

EITEM AGENDA 9. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL WEDI'I DIWEDDARU (PGAMW)

PENDERFYNWYD -

(1) BOD y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

(2) BOD amserlen yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf, 24<sup>th</sup> Hydref 2022, yn cael ei chymeradwyo a chynnwys yr adroddiad gohiriedig hefyd - Diweddariad Ch1: Amserlen Rhaglen Waith Archwilio Cymru 2022/23 – Cyngor Bro Morgannwg

(3) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad olrhain argymhellion Archwiliad ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor.

Y rheswm dros y penderfyniadau

(1&2) Sicrhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwybodol o gynnydd y rhaglen waith arfaethedig ac yn cael gwybod amdano.

(3) Caniatáu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio olrhain y broses o weithredu argymhellion a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol.